IS-BWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MAWRTH, 1 CHWEFROR 2022

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Mackie(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Goddard a/ac Lancaster |

1 : GWAHARDD Y CYHOEDD

Mae'r eitem ganlynol yn gyfrinachol ac wedi'i heithrio rhag cael ei chyhoeddi gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig o'r disgrifiad a geir ym mharagraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Gall y cyhoedd cael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ynghylch yr eitem hon.

2 : MATERION CERBYD HACNI/LLOGI PREIFAT

PENDERFYNWYD - Y dylid ymdrin â'r materion canlynol fel y nodir:

183 Achos 1

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod cwyn wedi dod i law gan ynglŷn ag ymddygiad gyrrwr. Honnwyd i'r gyrrwr roi lifft i deithwyr o'r Barri i Gaerdydd fel ffafr. Yna casglwyd y teithwyr o Gaerdydd a'u dychwelyd i'r Barri. Roedd y gŵyn yn ymwneud ag ymddygiad y gyrrwr yn ystod y daith yn ôl. Mynegwyd pryderon bod y gyrrwr wedi gwneud sylwadau rhywiol amhriodol, wedi gwahodd y teithwyr i gymryd cyffuriau ac wedi gweithredu mewn modd ymosodol.

Mynegodd cynrychiolydd y gyrrwr bryderon am y ffaith nad oedd y tystion yn bresennol i gael eu holi ar eu datganiad. Dywedodd y gyrrwr nad oedd yn gweithio ar y diwrnod dan sylw. Roedd wedi rhoi ei rif ffôn symudol personol i un o'r teithwyr fel ffrind. Rhoddodd lifft iddynt fel ffafr. Gan fod cydymaith ei ffrind yn dod o Lundain penderfynodd fynd i weld y golygfeydd ar y daith yn ôl. Ni chafodd unrhyw arian ei gyfnewid.

Roedd y Pwyllgor yn pryderu bod y gyrrwr wedi rhoi ei rif personol i unigolyn nad oedd wedi bod yn gysylltiedig ag ef o'r blaen ac wedi mynd ymlaen i'w cludo yn ei gerbyd llogi preifat. Roedd yr Aelodau o'r farn bod hyn yn anarferol iawn a mynegwyd pryderon ynghylch sut y gellid gweld hyn. Roedd yr Aelodau hefyd yn bryderus iawn bod y gyrrwr, yn ôl ei gyfaddefiad ei hun, wedi cyflawni dwy daith yn breifat gyda dau unigolyn nad oeddent yn ei 'swigen' yn groes i ofynion mesurau diogelwch Covid-19.

PENDERFYNWYD - rhoi rhybudd ysgrifenedig am ymddygiad annerbyniol i'r gyrrwr.

(2) Achos 2

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod cwyn wedi dod i law ynghylch achos honedig o godi gormod a gwrthod defnyddio'r mesurydd yn ystod taith. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried yr amgylchiadau a arweiniodd at dderbyn y gŵyn.

Siaradodd y gyrrwr gerbron yr is-bwyllgor. Dywedodd y gyrrwr y cyfwelwyd ag ef am y gŵyn tua 6 neu 7 wythnos yn dilyn y digwyddiad honedig ac felly ni allai gofio llawer o fanylion. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y gyrrwr wedi'i atal ar y noson dan sylw i gynorthwyo gyda digwyddiad 'taro a ffoi' ar Heol y Gadeirlan. Pan ddychwelodd i'r gwaith, cododd bedair menyw o safle tacsis. Dywedodd y gyrrwr ei fod fel arfer yn gofyn am flaendal ond gwadodd ei fod wedi gofyn i'r cwsmeriaid am £40 cyn y daith ond efallai bod camddealltwriaeth wedi bod.

Cafodd yr Is-bwyllgor sylwadau gan yr achwynydd hefyd. Dywedodd yr achwynydd nad oedd yn feddw a bod ganddi atgof clir o'r digwyddiad. Dywedodd y gŵyn fod y gyrrwr wedi gofyn i bob un o'r teithwyr am £10 cyn y daith. Gofynnwyd i'r gyrrwr ddefnyddio'r mesurydd ond gwnaeth wrthod. Bryd hynny, terfynwyd y daith a gofynnodd y cwsmeriaid i gael gadael y cerbyd.

PENDERFYNWYD – Bod y gyrrwr yn cael ei wahardd am 7 diwrnod am godi gormod ac am wrthod defnyddio'r mesurydd.

(3) Achos 3

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried cais am drwydded gyrru cerbydau hacni/llogi preifat. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y gyrrwr wedi'i drwyddedu o'r blaen ond bod ei drwydded wedi'i dirymu pan gafodd y gyrrwr ei gyhuddo o drosedd hysbysadwy.

Derbyniodd yr Is-bwyllgor sylwadau gan gynrychiolydd y gyrrwr. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod honiad wedi'i wneud ond na fu unrhyw gyhuddiadau a bod y mater wedi dod i ben. Cyn y digwyddiad, roedd gan y gyrrwr gofnod di-nam. Roedd hefyd yn aelod amlwg o'i gymuned.

Roedd yr Is-bwyllgor yn pryderu, er na fu unrhyw gyhuddiadau troseddol, nad oedd y gyrrwr wedi gweithredu'n briodol ar adeg y digwyddiad.

PENDERFYNWYD - Gwrthod cais am drwydded gyrru cerbydau hacni / llogi preifat.

(4) Achos 4

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod gyrrwr wedi cael 6 phwynt cosb am yrru heb yswiriant dilys. Gofynnwyd i'r gyrrwr egluro'r amgylchiadau.

Dywedodd cynrychiolydd y gyrrwr fod y gyrrwr wedi mynd i archfarchnad leol yng nghar ei wraig. Nid oedd yn ymwybodol bod polisi yswiriant ei wraig wedi newid ac nad oedd bellach wedi'i yswirio i yrru'r cerbyd. Derbyniodd y gyrrwr mai ei gyfrifoldeb ef oedd hyn.

Wrth ymateb i gwestiynau gan yr Is-bwyllgor dywedodd y gyrrwr na ddatganodd y drosedd adeg y digwyddiad na datgelu'r drosedd ar ei gais gan nad oedd yn sylweddoli ei fod yn drosedd gyrru.

PENDERFYNWYD – Bod y gyrrwr yn cael ei wahardd am 7 diwrnod am drosedd gyrru ac am beidio â datgelu'r drosedd.

(5) Achos 5

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod gyrrwr trwyddedig wedi cronni 15 pwynt cosb am droseddau gyrru. Cafodd yr Is-bwyllgor sylwadau gan y gyrrwr.

Dywedodd y gyrrwr ei fod wedi derbyn y pwyntiau cosb am 5 trosedd goryrru pan oedd yn gweithio fel gyrrwr dosbarthu yn ystod y pandemig. Nid oedd yn gweithio fel gyrrwr tacsi ar y pryd. Nid oedd yn ymwybodol ei fod yn gorfod datgan y troseddau.

PENDERFYNWYD – Dirymu’r drwydded gyrru cerbydau hacni/llogi preifat oherwydd y troseddau gyrru.

(6) Achos 6

Derbyniwyd cwyn ynglŷn ag ymddygiad gyrrwr. Honnwyd bod y gyrrwr wedi codi gormod am daith.

Dywedodd y gyrrwr ei fod wedi ymateb i alwad a chyrraedd y lleoliad yn gyflym. Fodd bynnag, nid oedd yn gallu gweld ei deithiwr felly cysylltodd â'r swyddfa i ofyn am ddisgrifiad o'r cwsmer. Gwelodd y cwsmer yn ei ddrych golwg cefn, troi’r cerbyd a chasglu ei deithiwr.

Yn ystod y daith ffoniodd y teithiwr ei bartner gartref a gofyn iddo basio £10 drwy'r ffenestr i dalu'r pris. Parciodd y gyrrwr ei gerbyd mor agos â phosibl i'r eiddo dan sylw gan ei fod yn ymwybodol bod gan y teithiwr broblemau symudedd. Dywedodd y gyrrwr, gan fod y cerbyd wedi'i barcio ar lethr, y gallai'r teithiwr fod wedi’i chael yn anodd agor drws ochr chwith y cerbyd.

Roedd gan yr achwynydd broblemau iechyd meddwl cymhleth. Dywedodd yr achwynydd fod y gyrrwr ar y dechrau yn cuddio ei gerbyd ac yn gwrthod ei gasglu. Honnwyd bod y tacsi hwnnw wedi'i ganslo a bod cerbyd arall wedi'i archebu. Dywedodd yr achwynydd fod y gyrrwr, ar ôl cyrraedd ei gartref, wedi cloi'r cerbyd ac wedi gwrthod gadael iddo adael y cerbyd. Yna, aeth i

banig. Roedd anghytundeb hefyd ynglŷn â'r pris am y daith.

PENDERFYNWYD - Na ddylid cymryd unrhyw gamau gweithredu pellach.

(7) Achos 7

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod gyrrwr wedi cael 9 pwynt cosb am yrru. Dywedodd cynrychiolydd y gyrrwr fod y gyrrwr wedi bod yn gweithio nosweithiau drwy gydol y pandemig, gan gludo teithwyr ar ran y GIG yn bennaf. Roedd y troseddau wedi digwydd pan nad oedd teithwyr yn y cerbyd ond roedd y gyrrwr dan gryn bwysau i gasglu ei deithiwr nesaf ar frys.

Dywedwyd wrth yr Is-bwyllgor fod y gyrrwr yn derbyn y troseddau ac yn edifarhau ei weithredoedd. Derbyniodd hefyd na ddatgelodd y troseddau'n anfwriadol.

PENDERFYNWYD – Bod y gyrrwr yn cael ei wahardd am 7 diwrnod am drosedd gyrru.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.30 pm